# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf, 2011

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Thomas Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Aled M Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E G Davies, Eric Jones, R Llewelyn Jones,<br>G W Roberts, OBE, Ieuan Williams |
| **WRTH LAW**: | Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio (John Fidoe)<br>Cyfrifydd ( Mark Anderson) (ar gyfer eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIAD**: | Y Cynghorydd Jim Evans |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Comisiynydd Mr Byron Davies (Sylwedydd), Lynn Hine (Archwilydd Penodedig - PwC), Mr James Quance (Uwch Reolwr Ymgysylltu – PwC) |

---

Rhoes y Cadeirydd groeso i bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio, ac estynnodd groeso arbennig i Mr Mark Anderson, Cyfrifydd yn y Gwasanaeth Cyllid.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Mai, 2011.

Yn codi –

Cyfeiriwyd at y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf y byddai'r Gwasanaeth Cyllid, er mwyn rhoddi sylw yn y tymor hir i'r problemau recriwtio i'r swyddi mwy arbenigol yn y Gwasanaeth, yn cael ei eithrio o'r penderfyniad i roi'r gorau i'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer Hyfforddi Graddedigion, a gofynnwyd a oedd unrhyw beth wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r mater hwn. Dywedodd y Cadeirydd y trafodwyd materion capasiti yn y Gwasanaeth Cyllid mewn cyfarfod yn ddiweddar rhyngddo ef, yr Is-Gadeirydd, y Comisiynydd Mr Byron Davies a'r swyddogion perthnasol. Mae gan ychwanegu at gapasiti oblygiadau o ran adnoddau a bydd materion yn ymwneud ag adnoddau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o lunio cyllideb 2012/13. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid ei fod yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am wneud y cynnig a bod hyfforddeion graddedig cyfredol y Gwasanaeth wedi bod yn ased i'r Gwasanaethau Cyllid ac Archwilio Mewnol. Roedd y Cynllun Corfforaethol ar gyfer Hyfforddi Graddedigion wedi dod i ben a gwnaed penderfyniad llynedd i rewi'r rhaglen gan gydnabod y byddai'n rhaid i'r cynllun ailgychwyn ar ryw adeg oherwydd anghenion y Cyngor o ran yr amrediad o staff y mae eu hangen. Pan fydd hynny'n digwydd, bydd y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio yn y cyswllt hwn, gyda gobaith, yn cryfhau sefyllfa'r Gwasanaeth Cyllid.

## 3 DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2010/11

Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2010/11 i sylw'r Pwyllgor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid wrth yr aelodau bod disgwyliad y bydd y Datganiad Cyfrifon drafft heb ei archwilio yn cael ei gwblhau cyn y dyddiad cau statudol o 30 Mehefin. Er mai dyna oedd y nod, soniwyd mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio am y risgiau mawr a oedd yn gysylltiedig â chwrdd â'r gofyniad hwnnw a daeth yn amlwg na fu modd i'r Awdurdod gwrdd â'r dyddiad cau hwn mewn perthynas â Datganiad 2010/11. Dywedodd ei fod yn credu bod yr Awdurdod hwn yn un o ddau awdurdod yng Nghymru a fethodd gwrdd â'r dyddiad cau o 30 Mehefin. Fodd bynnag, buwyd yn gweithio'n ddiflino ar y Datganiad Cyfrifon a chafodd ei gwblhau ar 21 Gorffennaf a'i ardystio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid ar y diwrnod hwnnw fel adlewyrchiad cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor. Roedd nifer o ffactorau ynghlwm wrth y risg o beidio â chwblhau'r Datganiad erbyn y dyddiad gofynnol gan gynnwys yr isod:-

- Cyflwyno'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Mae'r cyfrifon fel y cawsant eu cyflwyno'n cydymffurfio gyda'r fformat SAAR newydd sy'n cynnwys ailddatganiad o'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn wedi golygu gwaith ychwanegol i bob awdurdod eleni, gwaith a fyddai angen adnoddau ychwanegol mewn unrhyw awdurdod er mwyn cyfrannu at y broses.
- Systemau ariannol hen ffasiwn sydd wedi gwneud y gwaith o gywain y wybodaeth angenrheidiol yn anoddach yn arbennig felly yn wyneb gofynion y safonau newydd.
- Prinder staff oherwydd ymadawiad uwch swyddogion allweddol llynedd ac anawsterau wedi hynny i recriwtio'n barhaol i'r swyddi hyn. Mae hyn wedi dal y Gwasanaeth Cyllid yn ôl gyda llawer o waith yn ystod y flwyddyn.
- Gofynion ychwanegol eraill na gymerwyd i ystyriaeth yn ystod y flwyddyn ar ffurf rhaglen lleihau cyllideb a oedd yn uchelgeisiol iawn o ran y gwaith o lunio'r gyllideb ynghyd â materion yn codi o'r rhaglen adfer.

  O ganlyniad, mae rhaglen waith y Gwasanaeth Cyllid wedi llithro er y bu modd gwneud rhywfaint o'r amser i fyny drwy ddefnyddio staff asiantaeth sydd wedi bod yn hanfodol o ran eu harbenigedd yn y broses ac o ran cynorthwyo'r gwasanaeth i symud yn gyflymach tuag at ofynion SAAR. Mae'n resyn, fodd bynnag, na fu modd cwrdd â'r dyddiad cau o 30 Mehefin. Yn unol â'r gofynion, rhoddwyd Datganiad i'r perwyl hwnnw ar wefan y Cyngor ar 30 Mehefin ynghyd â Datganiad cryno o sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Felly, er nad oedd y Datganiad Cyfrifon llawn ar gael, roedd yr Awdurdod mewn sefyllfa i roi cyfrif o'u sefyllfa ariannol ar y dyddiad hwnnw. Ymhellach, nid oes gwahaniaeth mawr rhwng y datganiad hwnnw a'r prif negeseuon sy'n ymddangos yn y cyfrifon fel y cawsant eu cyflwyno i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio, ac sydd yn awr ar gael ar wefan y Cyngor. Nid yw'r Datganiad Cyfrifon sy'n ddogfen hir, dechnegol a newydd ar gael eto yn y Gymraeg; bydd y gwaith o gyfieithu'r Datganiad yn cael ei gwblhau rhwng rŵan a chyhoeddi'n ffurfiol y cyfrifon wedi'u harchwilio. Yn ogystal, roedd bwriad i drefnu sesiwn hyfforddiant i aelodau ar y cyfrifon cyn cyfarfod heddiw o'r Pwyllgor. Er na fu modd gwneud hynny oherwydd y llithriad mewn perthynas â'r gwaith o baratoi'r cyfrifon, mae'r cynnig o hyfforddiant yn parhau i sefyll gyda golwg ar drefnu sesiwn yn y cyfnod rhwng rŵan a'r adeg y bydd y Pwyllgor hwn yn mabwysiadu'r cyfrifon wedi'u harchwilio ddiwedd mis Medi. Cadarnhaodd yr Aelodau yr hoffent gymryd mantais o'r cynnig o hyfforddiant ar drin y cyfrifon a chynigiwyd a chytunwyd y dylid trefnu sesiwn i'r perwyl hwnnw.

Yna, aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid yn ei flaen i adrodd ar y prif ystyriaethau'n codi o'r Datganiad Cyfrifon gan ddwyn sylw'n benodol at y meysydd hynny lle y roedd cyflwyno'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol wedi newid yn sylweddol y dull o adrodd a fformat y cyfrifon. Cyfeiriodd at yr isod –

- **Prif Ddatganiadau Ariannol**

  Perfformiad y Gyllideb Refeniw. Roedd hyn yn galonogol ac yn adlewyrchu patrwm cyffredinol o danwario ar draws nifer o wasanaethau ac mae'n tystio i reolaeth ariannol bwyllog gan y sawl sy'n dal cyllidebau. Adroddwyd ar hyn yn fanylach yn yr adroddiad ar ganlyniadau'r Gyllideb Refeniw i'r Bwrdd Comisiynwyr yn gynharach heddiw. Ar y llaw arall, arweiniodd gwariant net gan ysgolion yn ystod y flwyddyn at leihau eu cronfeydd wrth gefn gan gyfanswm o £0.9m wrth i ysgolion unigol dynnu o'u balansau. Dyma dueddiad sy'n

cael ei groesawu'n gyffredinol oherwydd gan ysgolion Môn y mae'r lefel uchaf o arian wrth gefn yng Nghymru. Fodd bynnag, mae sefyllfa'n amrywio o ysgol i ysgol ac mae naw ysgol â diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gydag eraill yn rhagamcan diffyg yn y blynyddoedd i ddod.

- Cyllideb Gyfalaf. Yn y cyfrifon ar eu newydd wedd, rhoddir mwy o bwyslais ar y gyllideb gyfalaf ac adroddir yn ehangach ar asedau a benthyciadau'r Cyngor. Yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11, ni fydd modd cwblhau unrhyw brosiectau mawr ac mae'r Datganiad yn lle hynny yn adrodd ar brosiectau a rhaglenni sy'n mynd rhagddynt.
- Mae'r datganiad o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth, 2011 yn cyfeirio at faint y cronfeydd wrth gefn, rhai cyffredinol a chlustnodedig. Cafodd swm o £1m ei dynnu allan o'r balansau yn 2010/11 i dalu costau diswyddo yn 2011/12 fel rhan o strategaeth ariannol 2011/12; gwnaed hyn i adlewyrchu'r ffaith y gwnaed y penderfyniad mewn gwirionedd yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben. Wedi caniatáu ar gyfer yr addasiad hwn, mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn parhau i fod yn agos at y sefyllfa a ragamcanwyd fel rhan o'r ymarfer monitro yn y trydydd chwarter.
- Mae'r Datganiad ynghylch Symud Cronfeydd wrth Gefn ar dudalen 7 y cyfrifon yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn o ran y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor a'r rheini wedi'u dadansoddi yn "gronfeydd defnyddiadwy" – y rheini y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant neu i leihau trethi lleol – a chronfeydd wrth gefn eraill. Yn y datganiad, dygir sylw at y prif amrywiaethau o ran symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn perthnasol a cheir crynodeb o brif ddigwyddiadau'r flwyddyn.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dilyn yr SAAR newydd o ran ailddatgan ffigyrau 2009/10. Gwerth cyfyngedig sydd i'r datganiad penodol hwn o ran tynnu cymhariaeth ystyrlon gyda'r flwyddyn flaenorol oherwydd mae'r gwahaniaethau'n anodd i'w hegluro oherwydd nifer yr addasiadau a wnaed yn y cyfrifon.
- Mae'r Fantolen hefyd yn cydymffurfio gyda'r safonau adrodd newydd ac yn rhoi darlun cyffredinol iawn o sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

- **Nodiadau Eglurhaol**

  Yn dilyn y prif ddatganiadau ariannol, ceir nodiadau eglurhaol manwl a dygwyd sylw'r aelodau at nifer o'r rhai arwyddocaol fel a ganlyn –

- Nodyn 1 - Polisïau cyfrifo sydd bellach yn rhan o'r prif gyfrifon.
- Nodiadau 3 a 4 - yn egluro statws rhywfaint o'r ffigyrau yn y cyfrifon ar y sail bod rhai ffigyrau'n rhai gwirioneddol ond bod eraill o angenrheidrwydd yn amcangyfrifon ac yn ffigyrau tybiedig sy'n seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill perthnasol e.e. y cyfrifoldeb o ran pensiynau. Cydnabyddir yr ansicrwydd sydd ynghlwm wrth rai ffigyrau yn Nodyn 4 lle dywedir y gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol.
- Nodyn 7 – yn nodi'r addasiadau rhwng y sail cyfrifo a'r sail cyllido dan reoliad sydd, yn ei hanfod, yn golygu'r gwahaniaeth rhwng SAAR a'r dull o adrodd ar y gyllideb yn gyffredinol.
- Nodyn 27 - yn ailddatgan y cyfrifon mewn fformat adrodd sy'n cyfateb i raniad y gwasanaethau yn y Cyngor sy'n ddull mwy cyfarwydd ac sy'n ei gwneud hi'n haws gwneud cymariaethau tebyg am debyg. Mae hon yn elfen newydd yn y cyfrifon ac ystyrir ei bod yn welliant oherwydd mae'n fwy ystyrlon i rheini'n sy'n gyfarwydd â strwythur mewnol y Cyngor.
- Nodyn 30 – lwfansau aelodau. Mae'r ffigwr sy'n ymddangos yn y cyfrifon yn wahanol i'r ffigwr a gyhoeddwyd fel rhan o'r dadansoddiad manwl o lwfansau a dalwyd. Amrywiad technegol yw hwn oherwydd y ffaith bod y ffigyrau a gyhoeddwyd yn cydnabod taliadau yn y flwyddyn tra bod y cyfrifon, yn unol â'r safonau cyfrifo, yn cyfeirio at y swm a wariwyd yn y flwyddyn. Mae'r ddau'n cydymffurfio gyda gofynion deddfwriaethol.
- Nodyn 31 - ad-daliadau i uwch swyddogion gan gynnwys cyfanswm y costau (gan gynnwys llety a theithio ac ati) a oedd ynghlwm gyda phenodi, yn unol â chyfarwyddyd y Gweinidog, Rheolwr-Gyfarwyddwr Interim y Cyngor o fis Medi, 2009 i Ebrill, 2011. Roedd y swm yn cyfateb i £227.9k yn 2010/11 sy'n llai na'r ffigwr a amcangyfrifiwyd (£275k) ac a ddyfynnir yn fynych.
- Nodiadau 39 a 40 – Cynllun Pensiynau Athrawon a Chynllun Pensiynau Llywodraeth Leol.

Mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu oedd ddim wedi'i gynnwys yn y cyfrifon drafft, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid y bydd y Datganiad Llywodraethu yn ffurfio rhan o'r cyfrifon terfynol wedi'u harchwilio. Fodd bynnag, roedd angen trafodaethau pellach gyda phartïon allweddol gan gynnwys y Comisiynwyr, y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro, y Swyddog Monitro a Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ynglŷn â chynnwys y Datganiad Llywodraethu. Nododd bod nifer o nodiadau canllaw ar gael mewn perthynas â llunio Datganiad Llywodraethu; mae'r rhain fodd bynnag yn rhagdybio bod pwynt cychwyn sefydliad yn un o lywodraethu da ond mae'r Awdurdod hwn wedi cael ei feirniadu am fethiannau o ran llywodraethu. O'r herwydd, bydd raid rhoddi sylw pellach i'r materion y mae hyn yn ei godi o ran sylwedd y Datganiad Llywodraethu.

Rhoddwyd i'r Aelodau'r cyfle i ofyn cwestiynau ynghylch cynnwys y Datganiad Cyfrifon ynghyd â mofyn eglurhad ar rai materion a holi ynghylch manylion y cyfrifon a'u harwyddocâd a chodwyd y materion a ganlyn ganddynt -

- Y ffaith bod cyfrifon y Gwasanaethau Plant gyda Gwasanaethau Addysg a chyfrifon y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion wedi'u categoreiddio ar wahân yn y cyfrifon. Gofynnwyd a oedd y rhaniad hwn yn groes i'r amodau gwirioneddol y mae'r Gwasanaeth Cyllid yn eu gweithredu o ddydd i ddydd. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y cyfrifon yn cael eu cyflwyno mewn dull safonol fel bod modd eu cymharu rhwng un awdurdod â'r llall. Fodd bynnag, roedd perfformiad y Cyngor o ran ei strwythur rheoli mewnol yn cael sylw gwell yn Nodyn 27 yn y cyfrifon sy'n newydd ac sy'n adrodd yn ôl segmentau'r Cyngor fel y cânt eu cydnabod i bwrpas rheoli'r gyllideb.
- Lwfansau Aelodau – nodwyd bod angen egluro'r cyfeiriad at Lwfansau'r Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd dan Nodyn 30 er mwyn nodi pwy neu beth y mae'n ei gynnwys.
- Pa barti – p'un ai'r ysgol unigol neu'r Cyngor – sy'n gyfrifol am yswiriant ar gyfer athrawon llanw. Gofynnwyd am wybodaeth mewn perthynas ag effaith unrhyw gynnydd mewn premiwm ar gyllidebau'r ysgolion sy'n cael effaith ar y defnydd o athrawon llanw i wasanaethu yn ystod cyfnod o absenoldebau ac unrhyw gynnydd yn y defnydd hwnnw yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11.
- Cafodd y symudiadau arwyddocaol o ran enillion a cholledion actiwaraidd mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o sefyllfa o £66m o ddiffyg yn 2009/10 i warged o £68m ar ddiwedd 2010/11 ynghyd â gostyngiad sylweddol yng ngwerth yr ymrwymiadau a gyllidir eu nodi gan yr aelodau fel rhywbeth sy'n arwydd o'r newid dramatig yn y ffigyrau hyn blwyddyn ar ôl blwyddyn. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y cynnydd yng ngwerth yr ymrwymiadau a gyllidir y llynedd i'w briodoli i'r newid yn y gyfradd log a ddefnyddir i ostwng yr ymrwymiadau. Roedd yr ymrwymiadau'r un fath ond roedd amodau'r farchnad wedi arwain at newid yn y cyfraddau llog. Eleni, mae gwerth yr ymrwymiadau wedi gostwng oherwydd defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn lle'r Mynegai Prisiau Adwerthu fel sylfaen ar gyfer gweithio allan y symiau.
- Holwyd am y cysylltiad rhwng y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy a'r tanwariant cyffredinol ar gyllidebau refeniw'r gwasanaethau. Gofynnwyd a oedd y tanwario wedi'i gynllunio neu ai lwc yn unig ydoedd ac a oedd y tanwariannau yn y gwasanaethau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfrifon yn ychwanegol at y rheini sydd wedi'u hadeiladu i mewn i'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy. Dywedwyd wrth yr aelodau er bod tanwariant ar ran y gwasanaethau i'w priodoli i ragor nag un ffactor, mae'n debygol bod y rhan fwyaf o'r tanwariant ac yn arbennig felly'r cyfraniad sylweddol a wnaed gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi digwydd o ganlyniad i gwrdd yn fuan â gofynion y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy.
- Asedau Cymunedol. Gwnaed cais am ychwaneg o wybodaeth ynglŷn â'r asedau cymunedol y mae'r Cyngor yn eu dal, y defnydd ohonynt, eu gwerth i'r Cyngor. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y Gwasanaeth Eiddo yn cadw cofrestr o asedau sefydlog sydd, yn ei chyfanrwydd, yn ddogfen gymhleth iawn. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y byddai'n ceisio sefydlu gyda'r Gwasanaethau Eiddo a oes fersiwn gryno o elfen asedau cymunedol y gofrestr ar gael i aelodau.
- Cynigiwyd y dylid darparu gwybodaeth ar gyfer y Pwyllgor ynglŷn â'r gorbenion sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Benthyca i Weithwyr Bryn Ceir. Dywedodd y Rheolwr Archwilio bod y Cynllun Archwilio Mewnol yn cynnwys adolygiad arfaethedig o'r Cynllun Benthyca i Weithwyr Brynu Ceir o ran gwerth am arian ac y bydd adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad hwnnw yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2010/11 fel y'i cyflwynwyd.**
- **Gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid drefnu hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar y cyfrifon cyn iddynt gael eu mabwysiadu gan y Pwyllgor ym mis Medi.**
- **Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn gyda gwybodaeth ynglŷn â'r asedau cymunedol y mae'r Cyngor yn eu dal.**

**4 MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 A CHYFETHOL AELODAU LLEYG**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid yn amlinellu'r newidiadau cyfansoddiadol sy'n ofynnol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) o ran cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ynghyd â'r cynigion i gychwyn ar y broses o gyfethol aelodau lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor.

Dygodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid sylw'r Pwyllgor at y prif ystyriaethau fel a ganlyn -

- Y Newidiadau Cyfansoddiadol Angenrheidiol a Chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon

  Yn Atodiad 1 yr adroddiad, amlinellwyd y newidiadau a oedd yn angenrheidiol i gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio i gydymffurfio gyda'r Mesur ynghyd â mân-newidiadau eraill. Bydd angen cyflwyno'r rhain i'r Bwrdd Comisiynwyr iddynt wneud argymhellion i'r Pwyllgor ac unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y newidiadau, bydd angen caniatâd y Gweinidog. Roedd un newid sylweddol o bosibl yn ymwneud â chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon, dyletswydd a fydd, fe ragwelir, yn trosglwyddo i'r Cyngor llawn. Roedd deddfwriaeth yn caniatáu dirprwyo'r swyddogaeth hon i'r Pwyllgor Archwilio a dyna wnaed yn yr Awdurdod hwn. Yn ôl y Cyfansoddiad presennol, y Pwyllgor Archwilio sy'n cymeradwyo'r cyfrifon a dyma a wneir mewn gwirionedd. Fodd bynnag, er y pery'r hyblygrwydd statudol ynghylch ai'r Cyngor ynteu'r Pwyllgor Archwilio sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon, yn ôl y canllawiau drafft rhagarweiniol, ymddengys mai'r drefn sy'n cael ei ffafrio yn awr yw i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo. Mae'r Cylch Gorchwyl drafft diwygiedig yn Atodiad 1 yn rhagweld mai'r Pwyllgor Archwilio fydd yn sgriwtineiddio'r Datganiad Cyfrifon cyn ei gymeradwyo wedyn gan y Cyngor llawn. Bydd hyn yn cyflwyno cam newydd i'r broses gymeradwyo a bydd angen alinio calendr y Cyngor gyda'r amserlen cyfrifon. Oherwydd nad yw hyn yn ymarferol ar gyfer 2011, argymhellir y dylai'r newid hwn ddod i rym yn 2012.

  Cadarnhaodd Ms Lynn Hine bod PwC wedi trafod ymarferoldeb y newid a ddisgrifir uchod ac yn gyffyrddus gyda gweithredu ar y cynnig o 2012 ymlaen. Roedd aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cytuno i'r newid fel y cafodd ei gynnig.

  **Penderfynwyd derbyn y newidiadau i'r Cyfansoddiad fel y cânt eu nodi yn Atodiad A yr adroddiad, a'u hanfon ymlaen i'r Bwrdd Comisiynwyr gyda'r amod bod y drefn ddirprwyo gyfredol dan 3.4.8.1 (xi) yn weithredol drwy gydol 2011.**

- Penodi Aelodau Cyfetholedig i'r Pwyllgor Archwilio a'r Drefn Benodi

  Roedd angen penderfynu pwy yn union fyddai'n penodi aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Archwilio. Yn ôl y Mesur, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod yn ei gyfanrwydd ond gellir dirprwyo'r awdurdod hwn. Y ffordd symlaf o wneud hyn fyddai i'r Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Archwilio ei hun benodi ac mae'r drafft yn 3.4.8.3.2 o'r cylch gorchwyl diwygiedig yn Atodiad 1 yn adlewyrchu hyn. Oherwydd nad yw hyn yn glir yn y Mesur, byddai'n rhaid i'r Cyngor llawn gadarnhau hyn yn benodol cyn penodi. Yn ogystal, bydd angen cyfeirio'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mai na fyddai aelodau etholedig yn derbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth arferol i'r Cyngor Sir fel y corff a chanddo'r cyfrifoldeb ffurfiol am hyn fel rhan o'r cynllun lwfansau aelodau.

Yn Rhan 2 yr adroddiad, amlinellir trefn benodi arfaethedig ar gyfer y ddau aelod cyfetholedig y gwnaed penderfyniad i'w penodi ym mis Mai. Mae'r drefn arfaethedig yn cynnwys cyfnod gwasanaeth y penodiadau sef naill ai dwy neu bedair blynedd er mwyn sicrhau bod y cyfnod yn y swydd yn gorgyffwrdd ynghyd â phroses amlinellol. Oherwydd bod hyn yn ymwneud â recriwtio i rôl arbenigol ac annibynnol, ystyrir y dylai'r Pwyllgor gael cymorth aseswr allanol i gynghori ar y broses yn ychwanegol at swyddogion yr Awdurdod. Y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd fydd yn gwneud y penodiad, ond os bydd nifer fawr o ymgeiswyr, gellir dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd dynnu rhestr fer o ymgeiswyr gyda chyngor asesydd allanol.

**Penderfynwyd –**

- **Argymell i'r Cyngor ei fod yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am benodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor Archwilio i'r Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor hwnnw.**
- **Ar yr amod bod y Cyngor yn cymeradwyo'r uchod, cychwyn ar y broses recriwtio fel y caiff ei hamlinellu yn rhan 2 o'r adroddiad, gan roddi i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor yr hawl i weithredu ar y materion hyn rhwng cyfarfodydd o'r Pwyllgor.**
- **Cymeradwyo'r cynnig y dylid penodi asesydd allanol i gynghori ar y broses benodi.**

**5 ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r aelodau – adroddiad gwaith gan Rheolwr Archwilio Mewnol mewn perthynas â gwaith yr Adain Archwilio Mewnol rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin, 2011. Dygwyd sylw'r aelodau at y ffaith bod un adolygiad yn y cyfnod yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor gyda gofynion ei Bolisi Rheoli Fflyd wedi arwain at farn Sicrwydd Coch. Roedd crynodeb o'r canfyddiadau ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad. Ynghlwm yn Atodiad B, roedd crynodeb o'r Adolygiad o Lwfansau Aelodau ar gyfer 2010/11 a arweiniodd at farn Sicrwydd Ambr/Gwyrdd.

Dygodd Rheolwr Archwilio sylw at y prif faterion a oedd yn codi o'r adroddiad fel a ganlyn –

- Mae Tabl 1 yr adroddiad yn dangos statws yr adolygiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ac/neu sydd wedi'u cwblhau hyd at adroddiad terfynol yn y cyfnod hwn ynghyd â'r farn archwilio cyffredinol. Rhydd hyn sicrwydd parhaus mewn perthynas â'r fframwaith rheoli mewnol.
- Mae tabl yn 2.3 yn dangos y graddau a roddwyd i'r adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf ac mae'n dangos y gellir, yn gyffredinol, gymryd sicrwydd cadarnhaol o adolygiadau'r chwarter cyntaf.
- Mae'r swydd wag yn y Tîm Archwilio Mewnol yn parhau i gael effaith ar allu'r Tîm i gynnal adolygiadau lefel uchel.
- Mae'r tabl yn 3.1 yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt fel y cawsant eu pennu yng Nghynllun Datblygu Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2011/12. Methwyd a chwrdd â dau darged, y naill mewn perthynas â % y cynlluniau archwilio a gwblhawyd hyd at adroddiad drafft yn y flwyddyn a'r llall mewn perthynas â chanran y diwrnodau y codir amdanynt yn y cynllun a ddefnyddiwyd. Mewn perthynas â'r un cyntaf, mae'r ffigwr hwn yn isel yn draddodiadol yn y chwarter cyntaf oherwydd mae'r prif bwyslais ar gyhoeddi adroddiadau terfynol o gynllun y flwyddyn flaenorol ac yn achos yr ail, roedd y targed o ran diwrnodau y codir amdanynt yn seiliedig ar gael cyflenwad llawn o staff yn yr uned Archwilio Mewnol. Mae swydd wag yn y gwasanaeth yn golygu bod nifer y diwrnodau y codir amdanynt i lawr am y cyfnod hwn.
- Yn rhan 4 yr adroddiad, amlinellir y gwaith archwilio arbennig a wnaed ac sy'n parhau yn ystod y cyfnod.
- Nid oes cyfeiriad yn yr adroddiad at Dracio Argymhellion ar gyfer y cyfnod oherwydd mae'r system 4Action yn y broses o gael ei chlirio gan y sawl sy'n cyflenwi'r system ar argymhellion Archwilio Mewnol ers 1 Ebrill, 2010 a hynny fel rhan o'r broses o uwchraddio'r system. Bydd y system ar ôl ei diwygio a'i diweddaru yn darparu gwell tystiolaeth o'r modd y gweithredir argymhellion a bydd yn haws i'w defnyddio.
- Yn yr adolygiad archwilio o'r Polisi Rheoli Fflyd y ceir manylion am y canfyddiadau yn Atodiad A yr adroddiad ac a arweiniodd at farn Sicrwydd Coch, datgelwyd rhai gwendidau gyda dyluniad y Fframwaith Rheoli yn y maes hwn yn bennaf, cymhlethdod y Polisi Rheoli Cerbydau a'r ffaith bod y polisi'n cael ei ddefnyddio'n anghyson ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Mae yna risg, petai damwain yn digwydd, y gallai'r Awdurdod ei gael yn euog dan y Ddeddf

Dynladdiad Corfforaethol, o beidio â chael polisïau digon cadarn yn eu lle ac am beidio â glynu wrthynt.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, cyfeiriodd yr aelodau at y materion a ganlyn –

- Roeddynt yn bryderus ynglŷn â'r cyfeiriad at glirio'r system 4Action fel rhan o waith uwchraddio oherwydd roedd hynny'n awgrymu y byddai'r argymhellion gweddilliol sydd heb eu gweithredu yn cael ei dileu oddi ar y system yn gyfan gwbl. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd rhoi dyddiad gorffen ar yr argymhellion er mwyn darparu trywydd archwilio ac roeddynt yn cynnig y dylid gwneud hynny. Eglurodd y Rheolwr Archwilio y bydd y system newydd yn hwyluso'r gwaith o dracio argymhellion sy'n golygu y bydd y ffigwr ar gyfer yr argymhellion a weithredwyd a'r ffigwr ar gyfer yr argymhellion hynny a gofnodwyd fel rhai a weithredwyd yn gliriach o lawer. Dywedodd, bod rhaid i argymhellion fod â chyfyngiad amser arnynt os ydynt am fod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, byddai'n trafod gyda'r cyflenwr y posibilrwydd o gofnodi argymhellion wedi'u disodli gyda golwg ar gau a rhoi dyddiad cwblhau ar bob un gyda rheswm. Byddant yn trosglwyddo i'r system newydd ond ni fyddid yn adrodd arnynt.
- Cafwyd trafodaeth a gwnaed sylwadau mewn perthynas â'r adolygiad o Lwfansau Aelodau. Atgoffwyd yr Aelodau bod canfyddiadau'r adolygiad ynghlwm wrth yr adroddiad nid oherwydd barn sicrwydd Coch ond yn hytrach y bydd rhaid i'r Aelodau, o ganlyniad i'r adolygiad, gael gwybod am yr angen i dynhau gweithdrefnau ac i egluro rhai meysydd mewn perthynas â defnyddio systemau cefnogaeth a hawliau am gostau teithio a chynhaliaeth. Yn gyffredinol, rhydd yr adolygiad sicrwydd rhesymol bod y system lwfansau aelodau'n gweithredu'n foddhaol a bod yr argymhellion yn dwyn sylw at welliannau y gellir eu gwneud yn achos rhai o'r gweithdrefnau a rheoliadau.
- Roedd yr aelodau'n parhau i fod yn bryderus ynglŷn â'r swydd sydd heb ei llenwi yn yr Adain Archwilio Mewnol ac effaith hynny ar waith yr Adain. Roedd ymdeimlad nad oedd materion ynghylch adnoddau yn y Gwasanaethau Cyllid ac Archwilio Mewnol yn gyffredinol yn cael eu datrys yn derfynol. Dywedwyd wrth yr aelodau, na fu modd recriwtio person addas drwy'r broses hysbysebu arferol ac wedi ystyried ymgeiswyr posibl o restr y swyddi a oedd mewn perygl yn y Cyngor, roedd opsiwn arall yn cael ei ystyried yn awr.
- Roeddynt yn awyddus i gael gwybod am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion a gafwyd yn sgil yr adolygiad negyddol o gydymffurfiaeth gyda'r Polisi Rheoli Fflyd, a gofynnwyd ai problem i'r gwasanaeth oedd hon ynteu problem orfodaeth a oedd yn gysylltiedig gyda rôl ganolog yr Adran Briffyrdd a Thrafnidiaeth fel awduron gwreiddiol y polisi. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod hon yn broblem gymhleth. Ynghyd â diffyg atebolrwydd yn gorfforaethol ar gyfer polisïau unigol, efallai bod y Polisi Rheoli Fflyd yn rhy gymhleth a bod hynny'n ei wneud yn anodd ei ddeall ac i gydymffurfio ac ef yn arbennig felly o ran defnyddwyr car achlysurol. Yr hyn sydd ei angen yw canllawiau clir a syml a rheolwyr i gymryd cyfrifoldeb am y materion hynny o fewn eu maes gwaith o fewn fframwaith corfforaethol sydd ddim yn rhy benodol.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**
- **Gofyn i'r Rheolwr Archwilio ddarparu ar gyfer y Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu ar argymhellion yr adolygiad o'r Polisi Rheoli Fflyd.**

## 6 ARCHWILIO ALLANOL – PWC

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r aelodau – adroddiad gan yr Archwilydd Allanol, PwC yn crynhoi cynnydd yn erbyn y cerrig milltir allweddol a nodir yn Strategaeth Archwilio 2010/11 a gwaith perfformiad arall y gofynnwyd amdano gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Rhoes Ms Lynn Hine grynodeb o brif thema'r adroddiad. Cyfeiriodd at statws gwaith grant yr Archwilydd Mewnol a oedd yn cynnwys delio gyda materion yn codi o hawliadau'r flwyddyn flaenorol ynghyd â hawliad y flwyddyn gyfredol. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Cyngor wneud gwaith ychwanegol ar y cais Cymorth yn dilyn cwestiynau a godwyd yn y llythyr archwilio ar gyfer 2009/10. Gan gyfeirio at y gwaith o baratoi cyfrifon 2010/11, dygodd Ms Hine sylw penodol at y risg sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod yr Awdurdod wedi cyflwyno'r cyfrifon drafft yn hwyr ac na fydd modd i PwC gwrdd â'r dyddiad cau o 30 Medi ar gyfer rhyddhau ei farn ar y cyfrifon oherwydd yr oedi o dair wythnos gyda chychwyn yr archwiliad. Pwysleisiodd y bydd cwblhau'r adolygiad ar amser yn awr yn dibynnu i raddau helaeth ar ansawdd y wybodaeth a gaiff

PwC gan y Gwasanaeth Cyllid. Rhoddir gwybod i'r Aelodau a'r Rheolwyr am unrhyw ddatblygiadau.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynglyn â'r gwaith archwilio grantiau ac a oedd unrhyw oblygiadau cost i'r Awdurdod yn codi o ardystio ceisiadau am grant yn hwyr. Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch a fydd dal cyllid Cymorth yn ôl yn debygol o gael effaith ar brosiectau posibl gyda sefydliadau trydydd parti. Dywedodd Ms Lynn Hine bod y ceisiadau yn gymhleth i'w rhoi at ei gilydd a bod angen gwybodaeth fanwl. Rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon gyda chais cyn y gall PwC ei archwilio. Mewn perthynas â chais 2007/08 am gymhorthdal budd-dal tai er enghraifft, canfuwyd nifer o faterion yr oedd angen manylu arnynt ac yr oedd angen i'r Adran Waith a Phensiynau wedyn roddi prawf pellach arnynt. Fodd bynnag, bu gwelliannau yn yr Awdurdod o ran safon y ceisiadau am grant ac mai mater clirio'r nifer o geisiadau sydd wedi cronni sydd angen sylw yn awr. O ran y grant am gymhorthdal budd-dal Tai, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod y grant yn cael ei dalu yn fisol yn y flwyddyn dan sylw er bod achosion o ddal y grant yn ôl os methir â chwrdd â dyddiad cau. Yn achos cais 2009/10, dywedwyd wrth yr Archwilydd ei fod bron a'i gwblhau a bod cais 20010/11 wedi'i gwblhau'n barod. I gwblhau'r ceisiadau, rhaid taro cydbwysedd rhwng cywirdeb, amseroldeb a'r tueddiad yn ddiweddar fu canolbwyntio ar gyflwyno cais sy'n gywir. O ran Cymorth, roedd y mater yn ymwneud â chydymffurfiaeth o ran peidio â chwrdd â gofynion yr Archwilydd mewn perthynas â'r sicrwydd a roddwyd. Yr her yw ymateb yn brydlon ac mae gwaith wedi cael ei wneud gyda'r Adran Addysg a llythyr am gael ei anfon at Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynllun ar gyfer cyflwyno'r dogfennau angenrheidiol.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r materion a godwyd.**

**7 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – YMGYNGHORI AR Y BWRIAD I BENODI ARCHWILYDD ALLANOL**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor ohebiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ddyddiedig 22 Mehefin, 2011 at y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim yn nodi'r bwriad i benodi Anthony Barrett o SAC fel Archwilydd Penodedig yr Awdurdod i gwblhau cyfrifon 2010/11 ac ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Eglurwyd yn yr ohebiaeth y byddai PwC, fel rhan o'r trefniant hwn, yn parhau i wneud gwaith archwilio ar ran yr Awdurdod ond y byddai'n adrodd i Anthony Barrett fel rhan o'i rôl fel Archwilydd Penodedig yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Llywodraeth Leol. **Derbyniwyd a nodwyd yr ohebiaeth heb unrhyw sylwadau.**

**Y Cynghorydd Thomas Jones**
**Cadeirydd**